# Grymuso
# Llysgenhadon Dysgwyr




Cafodd yr adnodd hwn ei greu gan bartneriaeth o ddysgwyr a darparwyr. Mae'n codi cwr y llen ar adeiladu llais dysgwyr, ymgysylltu ac eiriolaeth.

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Ariennir gan
Funded by
Taith

# Tabl Cynnwys

3 Am y rhaglen Llysgennad Dysgwyr

4 Dysgu o Iwerddon: Cyfnewidfa wybodaeth

6 Adeiladu'r rhaglen

9 Yr Hyn sy'n Gweithio – cyngor ar gyfer datblygu rhaglen llysgennad dysgwyr:

1. Athroniaeth y rhaglen
2. Amcanion y rhaglen
3. Strwythur y rhaglen
4. Elfennau allweddol i'w datblygu ymhellach
5. Gwerthuso

20 Adeiladu llais dysgwyr

22 Atodiad 1 - Sgiliau

30 Adnoddau gan bartneriaid







# Am y rhaglen Llysgennad Dysgwyr

Mae'r Rhaglen Llysgennad Dysgwyr yn brosiect a gyllidir gan Taith gyda chynrychiolwyr o Dysgu Bro Ceredigion, Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot, Addysg Oedolion Cymru, Dysgu Oedolion yn y Gymuned Dysgu Sir Gâr, Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych, Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwynedd a Môn, Coleg Caerdydd a'r Fro a Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent. Cefnogir y rhaglen gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

## Partneriaid:

Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning

Powys Castell-nedd Port Talbot Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Powys Neath Port Talbot Adult Learning in the Community

Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales

Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

Dysgu Cymunedol i Oedolion - Adult Community Learning

Addysg Gymunedol Gwynedd & Môn Community Learning

Cardiff and Vale College / Coleg Caerdydd a'r Fro

Coleg Gwent

# Dysgu o Iwerddon: Cyfnewidfa wybodaeth

Mae'r bartneriaeth wedi gweithio gyda AONTAS, sefydliad blaenllaw ar gyfer datblygu llais dysgwyr a chefnogi dysgu yn y gymuned yn Iwerddon. Cynhaliwyd ymweliad i Ddulyn, Iwerddon ym mis Mawrth 2024 gyda chynrychiolwyr y prosiect yn cymryd rhan mewn cyfnewidfa wybodaeth gyda ffocws ar ddysgu mwy am lais dysgwyr ac eiriolaeth yng Nghymru ac yn benodol fodel Learners as Leaders AONTAS.




Yn ystod yr ymweliad, cyfarfu'r cynrychiolwyr hefyd â NALA a SOLAS. NALA yw'r Asiantaeth Lythrennedd Genedlaethol sydd â gwaith gyda ffocws ar lais dysgwyr ac allgymorth i gynyddu ymwybyddiaeth o lythrennedd yn Iwerddon. SOLAS yw'r asiantaeth wladol sy'n goruchwylio addysg bellach a hyfforddiant yn Iwerddon – gan osod cyfeiriad strategol a pherfformiad ar gyfer cyflenwi dysgu ôl-16 a sgiliau, yn ogystal â gweithredu strategaeth Adult Literacy for Life .

Ym mis Mawrth 2025 hwylusodd y prosiect ail ymweliad i Corc, Iwerddon, ar gyfer dysgwyr a gymerodd ran yn y cynlluniau peilot i gyfnewid gwybodaeth a rhannu arfer gorau gyda dysgwyr Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Corc, sydd eisoes wedi sefydlu rhaglen llysgenhadon dysgwyr.

NALA National Adult Literacy Agency

AONTAS The Voice of Adult Learning

SOLAS learning works


FET Learner Forum
Cavan & Monaghan
welcome
This is your day!
Safe Space
Our first face-to-face Learner Forum since Covid
Learners
We want to hear your Thoughts and Feedback
cmetb Support Service for learners
Why?
"College experience hasn't been good"
How can we IMPROVE ??
"I feel I have learned so much and I have made so many friends"
NO 3%
YES 97%
"If I can do it, anyone can!"
fig 1.1. Would you recommend CMETB to a friend?
Feedback
aontas
quality
equity
How can we improve Further Education & Training?
anonymous!
Learner Voice
Back to etb
National Report
Policy Makers & Government
"It's never too late to start studying"
Q... In your experience of (remote or in-class) learning this year...
Good Feedback
Great Tutors! eg. Criminology
Great Support from Students & Tutors
What's App group = helpful!
Face to Face = so much better
Big Rooms
New Skills!
free laptop!
What has been Working WELL?
100% would recommend
Facilities are good!
well organised
high level equipment
Canteen = good!
€1000
Fees reduced!
€200
But some tutors don't treat students with respect
Outdated Course Content
What has NOT been working well?
Perms!!
Laser plz!
Assignments
Too many, too hard
All at the same time
During work experience
Stinky Toilets
Who do we say it to??
Student Card
A student card would help!
Ticket to College return €15
info on progression routes
I didn't realise how much work was involved
High Dropout rates
26 → 6 Hairdressing
Apps not working!
losing work = frustrating!
The Cost of Transport!
cold old buildings
Advertise courses on Radio!
Timetable
LUNCH
A Canteen for Monaghan Institute
Nowhere quiet to study!
2 classes spread out...
Make that day Remote
SUPPORTS Not at Lunchtime
What CHANGES would you make to improve learning?
cmetb Survey Results
Why choose to complete a course with cmetb?
gain a new skill
gain a qualification
find employment
We have an open door
reach out
get in touch with the cmetb!
It's all very positive!
Mental Health Ireland
Hello How are you?
Be a Leader
mental
social
health
physical
Hard Work
sacrifice
studying
learning
love
perseverence
"success is no accident" — Pele
The Five Ways of Wellbeing
connect
be active
take notice
keep learning
give
Holistic approach to Health
I can control
Outside my control
In times of uncertainty... focus on what you can control.
cmetb
Bord Oideachais agus Oiliúna an Chabháin agus Mhuineacháin
Cavan and Monaghan Education and Training Board
#LearnerVoice
AONTAS
The Voice of Adult Learning

# Adeiladu'r rhaglen

**Defnyddiodd partneriaid y prosiect y dysgu hwn i ddatblygu gwahanol ddulliau newydd ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr drwy ddyddiau datblygu cwrs, darpariaeth a gweithdai yn cynnwys:**

- Gweithdai gydag achrediad a heb achrediad i gael sylwadau dysgwyr lleol ar yr hyn a gredent oedd rôl Llysgennad Dysgwyr a pha adnoddau a hyfforddiant fyddai eu hangen.
- Rhaglen 10-wythnos a luniwyd ar y cyd i ymgysylltu ag oedolion sydd ar hyn o bryd mewn swyddi yn y gymuned, gan gynyddu eu dealltwriaeth o ymgysylltu â'r gymuned a rhoi'r offer iddynt i rymuso eraill i ddod yn llysgenhadon dysgwyr.
- Rhaglen 10-wythnos a luniwyd ar i cyd i ymgysylltu ag unigolion sydd wedi cwblhau cwrs addysg oedolion yn y gymuned i gynyddu eu dealltwriaeth o ddysgu yn y gymuned a rhoi'r offer iddynt i rymuso eraill i ddod yn ddysgwyr.






**Fe wnaeth yr hyn a ddysgwyd ar yr ymweliadau amlygu canfyddiadau allweddol ar gyfer y bartneriaeth:**

- Dylai Rhaglen Llysgennad Dysgwyr fod yn adnodd ar gyfer darparwyr wrth gefnogi datblygu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr i ymestyn allan i gymunedau i ehangu cyfranogiad, meithrin hyder am gymryd rhan mewn dysgu a dynodi a llunio cyfleoedd i ehangu darpariaeth.
- Mae Rhaglen Llysgennad Dysgwyr yn hybu'r gred sylfaenol fod gan ddysgwyr safbwyntiau a phrofiadau gwerthfawr a all lunio dyfodol addysg a gwaith.
- Dylai Rhaglen Llysgennad Dysgwyr hyrwyddo'r syniad bod dysgwyr yn gyfryngau newid yn ogystal â bod yn gyfranogwyr, gyda'u lleisiau a'u gwybodaeth yn hanfodol ar gyfer meithrin amgylchedd dysgu deinamig ac ymatebol.
- Dylai Rhaglen Llysgennad Dysgwyr gael ei hadeiladu ar y gred y bydd grymuso unigolion i ddod yn bencampwyr dysgu gydol oes, gan eu cefnogi i rannu eu teithiau a'u llwyddiannau, yn ysbrydoli eraill yn eu cymuned.
- Bydd cael rhwydwaith o eiriolwyr yn llywio polisi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr a dysgwyr ledled Cymru.
- Dylai Rhaglen Llysgennad Dysgwyr anelu i feithrin rhwydwaith grymus o lysgenhadon a all fod yn lladmeryddion dros effaith drawsnewidiol dysgu a hyrwyddo ei hygyrchedd i bawb.

**Mae canfyddiadau'r ddau ymweliad i Iwerddon a'r rhaglenni peilot a gyflwynwyd yng Nghymru wedi cyfrannu at ddatblygu cyngor Yr Hyn sy'n Gweithio, fydd yn galluogi darpariaeth yng Nghymru i gefnogi ymgysylltu ac eiriolaeth dysgwyr drwy ddatblygu rhaglenni Llysgennad Dysgwyr.**


















# Yr Hyn sy'n Gweithio – Cyngor ar gyfer datblygu rhaglen llysgennad dysgwyr

## 1. Athroniaeth y rhaglen

**Dylai rhaglen Llysgennad Dysgwyr gael ei gyrru gan athroniaeth rymus:**

Meithrin cymuned egnïol o eiriolwyr sydd â gwreiddiau dwfn mewn egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr.

Dylai hyrwyddo cydnabyddiaeth dysgu blaenorol, gwerthfawrogi profiadau a gwybodaeth amrywiol unigolion a meithrin teithiau dysgu trawsnewidiol sy'n ymestyn tu hwnt i ennill sgiliau.

Drwy alluogi dysgwyr i ddod yn arweinwyr ac adrodd straeon, bydd Rhaglen Llysgennad Dysgwyr yn anelu i chwyddo eu lleisiau, herio anghydraddoldeb ac ar y cyd lunio tirlun dysgu tecach a mwy grymusol i bawb.



**Canolbwyntio ar y dysgwyr:**
Mae'r rhaglen yn rhoi blaenoriaeth i leisiau, profiadau a safbwyntiau dysgwyr.



**Grymuso:**
Anelu i gynyddu hyder, sgiliau a galluedd dysgwyr i arwain.



**Cynhwysiant:**
Sicrhau cynrychiolaeth amrywiol a chyfranogiad gan bob grŵp dysgwyr.



**Dysgu ar y Cyd:**
Meithrin cymuned lle mae dysgwyr yn dysgu gan ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd.



**Cyfiawnder cymdeithasol:**
Hyrwyddo tegwch a mynediad i addysg ar gyfer pawb.



**Cydnabod dysgu blaenorol:**
Gwerthfawrogi a chydnabod y gwerthoedd a'r sgiliau sydd gan ddysgwyr eisoes.



**Dysgu trawsnewidiol:**
Anelu i hwyluso newid personol a chymdeithasol drwy addysg.

# 2. Amcanion y rhaglen

Dylai Rhaglen Llysgennad Dysgwyr gael ei strwythuro i rymuso dysgwyr i ddod yn gyfranwyr ac arweinwyr gweithgar o fewn ein cymuned addysgol. Dylai'r amcanion creiddiol ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau hanfodol arweinyddiaeth, cyfathrebu ac eiriolaeth, ac ar yr un prydroi cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr lunio a gwella ein cyfleoedd a gwasanaethau dysgu.

Drwy feithrin amgylchedd cefnogol a chynhwysol, gall darparwyr gyfoethogi ymgysylltu a chyfranogiad dysgwyr, hyrwyddo gwerth cynhenid dysgu gydol oes a datblygu unigolion sy'n hyderus i gyfrannu at bolisi ac ymarfer dysgu.

Mae'r ymrwymiad i gasglu ac integreiddio adborth o safbwynt dysgwyr yn ganolog i'r rhaglen, gan sicrhau fod darparwyr yn parhau'n ymatebol ac yn canolbwyntio ar y dysgwyr er mwyn.

- Datblygu sgiliau arwain, cyfathrebu ac eiriolaeth dysgwyr.
- Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gyfrannu at wella rhaglenni a gwasanaethau dysgu.
- Creu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol.
- Cyfoethogi ymgysylltu a chyfranogiad dysgwyr.
- Hyrwyddo gwerth dysgu gydol oes.
- Casglu adborth gwerthfawr o safbwynt y dysgwyr.

# 3. Strwythur y rhaglen

## Recriwtio a dethol:

Dylai'r broses recriwtio a dethol fod yn agored a thryloyw, a bod wedi ei chynllunio i ddynodi unigolion sydd â'r cymhelliant, ymroddiad a photensial i ragori fel Llysgenhadon Dysgwyr. Dylai'r meini prawf bwysleisio'r nodweddion hyn yn hytrach na chyflawniad academaidd, gan sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o ddysgwyr ar draws grwpiau oedran, cefndiroedd ac arddulliau dysgu. I annog cyfranogiad eang, gallai'r broses gynnwys enwebiadau gan gymheiriaid a hefyd hunan-enwebiadau. Bydd diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir yn sicrhau fod llysgenhadon a ddetholir yn barod i gyfrannu'n effeithlon.

a) Proses gais agored a thryloyw.

b) Meini prawf yn seiliedig ar gymhelliant, ymroddiad a photensial yn hytrach na chyflawniad academaidd.

c) Pwyslais ar gynrychiolaeth amrywiol (oedran, cefndir, arddulliau dysgu ac yn y blaen).

ch) Ystyried enwebiadau gan gymheiriaid a hunan-enwebiadau.

d) Rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio yn glir.

## Hyfforddiant ac ymgyfarwyddo dechreuol:

Mae ffocws ar hyfforddiant ac ymgyfarwyddo dechreuol yn hanfodol i sicrhau'r wybodaeth a'r sgiliau i Lysgenhadon Dysgwyr ddatblygu yn eu swyddi. Dylai cyflwyniad cynhwysfawr gynnwys athroniaeth ac amcanion y rhaglen. Gellid cynnwys gweithdai datblygu sgiliau gyda ffocws ar gyfathrebu, cyflwyno, hwyluso, eiriolaeth ac arweinyddiaeth, ynghyd â throsolwg o bolisïau a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol. Dylid hefyd eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a gynlluniwyd i feithrin cymorth cymheiriaid a chael hyfforddiant hanfodol ar ystyriaethau moesegol a chyfrinachedd.

a) Cyflwyniad i athroniaeth ac amcanion y rhaglen.

b) Gweithdai datblygu sgiliau (cyfathrebu, cyflwyno, hwyluso, eiriolaeth, arweinyddiaeth).

c) Dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau y sefydliad.

ch) Gweithgareddau adeiladu tîm i feithrin ymdeimlad o gymuned.

d) Hyfforddiant mewn ystyriaethau moesegol a chyfrinachedd.

## Rolau a sgiliau llysgenhadon:

I sicrhau fod Rhaglen Llysgennad Dysgwyr yn cyflawni ei nod, mae’n hanfodol diffinio gwahanol rôl a chyfrifoldebau llysgennad. Gallai’r rolau hyn gwmpasu amrywiaeth o swyddogaethau, i gyd yn anelu i gyfoethogi’r amgylchedd dysgu, cefnogi cyd-ddysgwyr a hyrwyddo gwerth dysgu gydol oes. Daeth y rhestr gynhwysfawr o sgiliau a ddynodir isod i’r amlwg drwy gyfnod peilota a chyd-gynhyrchu y prosiect. Sylweddolwyd bod hyn yn rhoi rhestr wirio o ddatblygiad sgiliau y gellir eu cyflwyno mewn camau neu adeiladu arnynt dros gyfnod.

## Gall rôl llysgennad dysgwyr gynnwys un neu fwy o’r gweithgareddau isod (gweler yr atodiad i gael gwybodaeth fwy manwl):

- Cymorth cymheiriaid: Mentora a chefnogi cyd-ddysgwyr
- Adborth ac eiriolaeth: Casglu a chynrychioli adborth dysgwyr I wella rhaglenni a gwasanaethau.
- Hyrwyddo rhaglen: Hyrwyddo cyfleoedd dysgu ac annog cyfranogiad.
- Trefnu digwyddiad: Cynorthwyo gyda chynllunio a chyflenwi digwyddiadau dysgu.
- Adeiladu cymuned: Meithrin ymdeimlad o berthyn a chysylltiad ymysg dysgwyr.
- Datblygu adnoddau: Cyfannu at greu adnoddau cyfeillgar i ddysgwyr.
- Cynrychiolaeth: Cynrychioli llais dysgwyr mewn cyfarfodydd a phwyllgorau sefydliadau.
- Ymchwil a gwerthuso: Cynorthwyo gyda chasglu a dadansoddi data dysgwyr.



Casglodd Fforymau Dysgwyr adborth ar rôl arfaethedig Llysgennad Dysgwyr, yn benodol yn ymwneud â chyfrifoldebau a chynnws cwrs hyfforddiant posibl. Gofynnwyd i'r sawl a gymerodd ran hefyd i roi eu barn ar strwythur y cwrs ac unrhyw gyfleoedd pellach a fedrai ddilyn cwblhau rhaglen Llysgennad Dysgwyr, yn cynnwys dau weithgaredd torri iâ ar 'pam fod oedolion yn dsgu' a 'manteision mynediad i addysg oedolion'.

## Beth yw manteision addysg oedolion?

- Gwella a diweddaru sgiliau cyfredol
- Mae'n hwb i fy hyder
- Peidio â theimlo ar ben fy hun
- Gwneud ffrindiau

## Beth mae'r ymadrodd 'llysgennad dysgwyr' yn ei olygu i fi?

- Lledaenu'r gair am sut a ble i ddysgu
- Siarad am eu profiadau o fod yn ddysgwr
- Dod â'n cymuned ynghyd tra'n dysgu
- Chwalu rhwystrau

## Cymorth a datblygiad parhaus:

Mae llwyddiant parhaus Rhaglen Llysgennad Dysgwyr yn dibynnu ar ddarparu cymorth a chyfleoedd datblygu di-dor i'r sawl sy'n cymryd rhan. Mae'r ymrwymiad hwn yn sicrhau fod llysgenhadon wedi eu paratoi'n dda i drin eu cyfrifoldebau, dal ati i gymryd rhan yn y rhaglen a pharhau i dyfu fel arweinwyr ac eiriolwyr.

I gyflawni hyn, dylai Llysgenhadon Dysgwyr fod â mynediad i gyfarfodydd a cyfleoedd sgwrs rheolaidd gyda chydlynwyr y rhaglen, cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a hyfforddiant arweinyddiaeth, mentora ac anogaeth parhaus gan staff a llysgenhadon profiadol, adnoddau a deunyddiau cymorth arbennig, rhwydwaith cadarn o gefnogaeth cymheiriaid gyda chyfarfodydd a sesiynau datrys problem grŵp rheolaidd, ac iawndal ariannol am eu cyfraniadau.

a) Cyfarfodydd a chyfleoedd am sgwrs gyda chydlynwyr y rhaglen.

b) Cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a hyfforddiant arweinyddiaeth parhaus.

c) Mentora ac anogaeth gan lysgenhadon profiadol

ch) Mynediad i adnoddau a deunyddiau cymorth.

d) Rhwydwaith a chyfarfodydd cymorth cymheiriaid a sesiynau grŵp datrys problemau.

dd) Iawndal ariannol.

## Cydnabyddiaeth a gwerthusiad:

**Mae'n hanfodol cydnabod cyfraniadau llysgenhadon dysgwyr a gwerthuso effeithlonrwydd y rhaglen ei hun.**

Mae'r broses hon yn dilysu gwaith y llysgenhadon a hefyd yn rhoi dealltwriaeth werthfawr ar gyfer gwella a chynaliadwyedd rhaglen. I hyn o beth, dylai'r rhaglen gynnwys cydnabyddiaeth ffurfiol o gyfraniadau llysgenhadon drwy gymwysterau, tystysgrifau a gwobrau a chynnig cyfleoedd i lysgenhadon arddangos eu llwyddiannau.

Dylid defnyddio adborth a gwerthuso rheolaidd i asesu'r effaith, ynghyd â chyfleoedd i lysgenhadon fyfyrio ar eu twf a'u dysgu personol. Dylid mesur effeithlonrwydd y rhaglen drwy gasglu data ansoddol a hefyd ddata meintiol.

a) Cydnabyddiaeth ffurfiol i gyfraniadau llysgenhadon (cymwysterau, tystysgrifau, gwobrau ac yn y blaen)

b) Cyfleoedd i arddangos eu llwyddiannau.

c) Adborth a gwerthuso effaith yn rheolaidd.

ch) Myfyrio ar dwf a dysgu personol.

d) Caglu data ansoddol a meintiol i asesu effeithlonrwydd.

# 4. Elfennau allweddol ar gyfer eu datblygu ymhellach

**Mae nifer o elfennau allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu Rhaglen Llysgennad Dysgwyr i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effaith mwyaf posibl. Mae hyn yn cynnwys mentora, paru llysgenhadon newydd gyda rhai profiadol, dysgu gweithredol, gan roi cyfleoedd i lysgenhadon roi eu sgiliau ar waith mewn sefyllfaoedd go iawn; a myfyrio, gan annog llysgenhadon i fyfyrio ar eu profiadau a'u dysgu.**

Mae cydweithio, meithrin partneriaethau gyda staff a rhanddeiliaid eraill; hyblygrwydd, addasu'r rhaglen i ateb anghenion newidiol dysgwyr a'r sefydliad; integreiddio digidol, defnyddio llwyfannau ar-lein ar gyfer cyfathrebu, cydweithio a rhannu adnoddau a chynaliadwyedd, cynllunio'r rhaglen i sicrhau ei hyfywedd hirdymor, hefyd yn elfennau pwysig i gael eu hystyried.

- **Mentoriaeth**: Paru llysgenhadon newydd gyda rhai profiadol.
- **Dysgu gweithredol**: Rhoi cyfleoedd i lysgenhadon roi eu sgiliau ar waith mewn sefyllfaoedd go iawn.
- **Myfyrio**: Annog llysgenhadon i fyfyrio ar eu profiadau a'u dysgu.
- **Cydweithio**: Meithrin partneriaethau gyda staff a rhanddeiliaid eraill.
- **Hyblygrwydd**: Addasu'r rhaglen i ateb anghenion newidiol dysgwyr a'r sefydliad.
- **Integreiddio digidol**: Defnyddio llwyfannau ar-lein ar gyfer cyfathrebu, cydweithio a rhannu adnoddau.
- **Cynaliadwyedd**: Cynllunio'r rhaglen i sicrhau ei hyfywedd hirdymor.

# 5. Gwerthuso

**Wrth werthuso Rhaglen Llysgennad Dysgwyr, dylai darparwyr ystyried ffactorau lluosog i fesur ei llwyddiant a dynodi meysydd ar gyfer gwella. Dylai'r gwerthusiadau hyn asesu nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, lefel ymgysylltu a bodlonrwydd dysgwyr a'r effaith ar welliannau gwasanaeth.**

Yn ychwanegol, mae'n bwysig gwerthuso datblygu sgiliau arweinyddiaeth a chyfathrebu llysgenhadon, yr ymdeimlad cynyddol o gymuned a pherthyn ymysg dysgwyr ac adborth gan staff. Dylai darparwyr hefyd gasglu data ansoddol o gyfweliadau a grwpiau ffocws i roi dealltwriaeth gynhwysfawr o effeithlonrwydd y rhaglen.

- Nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.
- Lefel ymgysylltu a bodlonrwydd dysgwyr.
- Effaith ar welliannau rhaglen a gwasanaeth.
- Datblygu sgiliau arweinyddiaeth a chyfathrebu llysgenhadon.
- Mwy o ymdeimlad o gymuned a pherthyn.
- Adborth gan staff.
- Data ansoddol a gasglwyd o gyfweliadau a grwpiau ffocws.

# Adeiladu llais dysgwyr

Bu Dysgu a Gwaith yn gweithio ar draws y sector trydyddol i roi llwyfan i ddysgwyr fwydo i bolisi, ymchwil a hyrwyddo addysg oedolion.




"Rwy'n credu'n llwyr yng ngrym trawsnewidiol addysg drydyddol ar ôl cael budd fy hunan ar ôl cyfnodau o gaethiwed a charchar. Os nad ydym yn cefnogi pobl i ateb eu hanghenion sylfaenol, ni fedrant hyd yn oed ddechrau cael mynediad i addysg drydyddol, heb sôn am ffynnu ar ôl cyrraedd yno."

Dywedodd Scott Jekinson, Prif Swyddog Gweithredol, Youth Shedz Cymru wrth siarad yn nigwyddiad CPCC ar Degwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru.




Mae Newid dy Stori yn gyfres o bodlediadau a gyflwynir gan Nia Parry.

Mae pob pennod yn cynnwys sgyrsiau gyda phobl sy'n ysbrydoli ac sydd wedi cofleidio dysgu gydol oes, gan roi cipolwg i wrandawyr ar eu profiadau dysgu, dealltwriaeth a'r ddoethineb y maent wedi eu casglu ar hyd y ffordd.






"Wrth edrych yn ôl yn awr, rwy'n sylweddoli fod yr heriau yn wirioneddol wedi fy helpu i fod â ffocws a bod yn fwy penderfynol i wneud yr hyn roeddwn eisiau, er fod rhwystrau, nid oedd dim yn fwy gwerth chweil na chyflawni gyrfa a gredwn unwaith ei bod tu hwnt i fy nghyrraedd."

Isaac Fabb, enillydd Gwobr Ysbrydoli! Sgiliau Gwaith 2024.

"Rwy'n cael llawer o bleser mewn siarad gyda phobl eraill a'u hysbrydoli. Mae cynrychioli dysgwyr wedi mynd â fi o amgylch i byd ac i leoedd na fyddwn byth wedi medru fforddio mynd iddynt. Mae drysau yn agor a chau, ond pan mae drws yn agor, mae'r hyder gennyf i gerdded drwyddo."

John Gates, enillydd Gwobr Ysbrydoli! Cyflawniad Oes 2023.

# Atodiad 1 - Sgiliau

**Gall rôl llysgennad dysgwyr gynnwys un neu fwy o'r gweithgareddau isod:**

## Cefnogi Cymheiriaid: Mentora a chefnogi cyd-ddysgwyr.

- **Gwrando Gweithredol**: Rhoi sylw manwl, deall safbwyntiau a dangos empathi.
- **Sgiliau Cyfathrebu**: Cyfleu gwybodaeth yn glir ac effeithlon, rhoi cyngor adeiladol ac addasu arddulliau cyfathrebu i wahanol unigolion.
- **Empathi ac Amynedd**: Deall a rhannu teimladau pobl eraill a bod yn amyneddgar wrth esbonio cysyniadau neu roi cefnogaeth.
- S**giliau Rhyngbersonol**: Meithrin perthynas, sefydlu ymddiriedaeth a chreu amgylchedd cefnogol a chalonogol.
- **Cyfrinachedd**: Parchu preifatrwydd dysgwyr a thrin gwybodaeth sensitif mewn modd priodol.

**Adborth ac Eiriolaeth: Casglu a chynrychioli adborth dysgwyr i wella rhaglenni a gwasanaethau.**

- **Sgiliau arsylwi**: Dynodi heriau a meysydd i'w gwella o fewn yr amgylchedd dysgu.
- **Casglu data**: Defnyddio gwahanol ddulliau (e.e. arolygon, sgyrsiau anffurfiol, grwpiau ffocws) i gasglu adborth cynhwysfawr a chynrychioladol.
- **Cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig)**: Mynegi adborth yn glir, cryno ac adeiladol gerbron rhanddeiliaid perthnasol.
- **Sgiliau dadansoddi**: Dynodi themâu a thueddiadau allweddol o fewn yr adborth a gesglir.
- **Adnabod problemau**: Tynnu sylw at faterion penodol a meysydd lle gellir gwneud gwelliannau.
- **Diplomyddiaeth a negodi**: Cynrychioli anghenion dysgwyr yn effeithlon ac yn barchus a chydweithio gyda staff.
- **Sgiliau eiriolaeth**: Hyrwyddo anghenion a buddiannau y gymuned ddysgwyr mewn modd angerddol gan ddwyn perswâd.

**Hyrwyddo'r rhaglen: Hyrwyddo cyfleoedd dysgu ac annog cyfranogiad.**

- **Sgiliau cyfathrebu a marchnata**: Creu cynnwys diddorol a gwybodus (e.e. cyflwyniadau, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, taflenni) i roi sylw i fanteision cyfleoedd dysgu.
- Brwdfrydedd ac angerdd: Dangos diddordeb gwirioneddol mewn rhannu angerdd am ddysgu, rhoi'r gair ar led a chyrraedd rhwydwaith o gysylltiadau fel llais yr ymddiriedir ynddo.
- Sgiliau rhyngbersonol: Meithrin cysylltiadau gyda darpar gyfranogwyr, gan roi'r hyder iddynt i gymryd rhan ac ateb eu cwestiynau a'u pryderon.
- Sgiliau cyflwyno: Cyflwyno gwybodaeth yn hyderus ac effeithlon i grwpiau o ddysgwyr.
- Rhwydweithio: Meithrin perthynas gyda gwahanol grwpiau o ddysgwyr neu weithwyr proffesiynol a deall eu diddordebau a'u hadnoddau.
- Creadigrwydd: Datblygu ffyrdd blaengar i gyrraedd ac ennyn diddordeb cyfranogwyr posibl.

**Trefnu digwyddiadau: Cynorthwyo gyda chynllunio a chyflwyno digwyddiadau dysgu.**

- Sgiliau trefnu: Cynllunio, cydlynu a rheoli tasgau yn effeithiol.
- Rheoli amser: Blaenoriaethu tasgau a chadw at ddyddiadau cau.

Gwaith tîm a chydweithio: Gweithio'n effeithlon gyda llysgenhadon eraill, staff a gwirfoddolwyr.

- Cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig): Cyfathrebu'n glir gyda'r sawl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad, siaradwyr a threfnwyr.
- Datrys problemau: Mynd i'r afael â phroblemau annisgwyl a all godi wrth gynllunio neu gyflwyno digwyddiad.
- Sylw i fanylion: Sicrhau y caiff pob agwedd o'r digwyddiad eu cynllunio a'u gweithredu yn dda.
- Medru addasu: Bod yn hyblyg a medru addasu cynlluniau fel sydd angen.

**Adeiladu cymuned: Meithrin ymdeimlad o berthyn a chysylltiad ymysg dysgwyr.**

- **Sgiliau rhyngbersonol**: Creu amgylchedd croesawgar a chynhwysol ar gyfer pob dysgwr.
- **Sgiliau hwyluso**: Llywio trafodaethau a gweithgareddau sy'n annog rhyngweithio a chysylltu.
- **Empathi a chynhwysiant**: Deall a pharchu gwahanol gefndiroedd a safbwyntiau.
- **Datrys gwrthdaro**: Mynd i'r afael mewn modd adeiladol gydag anghytundeb neu gamddealltwriaeth.
- **Rhwydweithio**: Cysylltu dysgwyr gyda'i gilydd a gydag adnoddau a darpariaeth berthnasol.
- **Cymhelliant**: Bod yn rhagweithiol wrth ddynodi cyfleoedd i adeiladu cymuned a meithrin rhyngweithio.

**Datblygu adnoddau: Cyfrannu at greu adnoddau cyfeillgar i ddysgwyr.**

- Deall anghenion dysgu: Dynodi'r mathau o adnoddau a fyddai fwyaf buddiol i ddysgwyr.
- Cyfathrebu (ysgrifenedig a gweledol): Creu deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau neu adnoddau eraill clir, cryno a diddorol.
- ·Creadigrwydd ac Arloesedd: Datblygu ffyrdd effeithlon i gyflwyno gwybodaeth.
- Sylw i fanylion: Sicrhau bod adnoddau yn gywir ac yn eglur.
- Cydweithio: Gweithio gyda staff a dysgwyr eraill i ddatblygu deunyddiau perthnasol a defnyddiol.
- Sgiliau technegol (yn dibynnu ar yr adnodd): Hyfedredd mewn defnyddio meddalwedd neu offer perthnasol ar gyfer creu adnoddau digidol.

**Cynrychiolaeth: cynrychioli llais dysgwyr mewn cyfarfodydd a phwyllgorau.**

- **Cyfathrebu (ffurfiol ac anffurfiol)**: Lleisio safbwyntiau dysgwyr yn glir ac yn broffesiynol mewn gwahanol leoliadau.
- **Sgiliau eiriol**: Cyflwyno anghenion a phryderon y gymuned ddysgwyr yn gadarn.
- **Deall strwythurau sefydliad**: Bod yn gyfarwydd gyda sut mae'r sefydliad yn gweithio a phwy yw'r gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol.
- **Diplomatyddiaeth a negodi**: Gweithio'n adeiladol gyda staff a chyfadran i sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.
- **Meddwl beirniadol**: Dadansoddi problemau a ffurfio dadleuon gyda rhesymau da.
- **Hyderus a phendant**: Codi llais a chynrychioli llais dysgwyr yn effeithlon.

## Ymchwil a gwerthuso: Cynorthwyo wrth gasglu a dadansoddi data dysgwyr

- **Deall dulliau ymchwil**: Bod yn gyfarwydd gyda gwahanol dechnegau casglu data (e.e. arolygon cyfweliadau).
- **Sgiliau casglu data**: Gweinyddu arolygon, cynnal cyfweliadau neu gasglu gwybodaeth berthnasol arall yn gywir ac yn foesegol.
- **Sgiliau dadansoddi (sylfaenol)**: Adnabod patrymau a llunio casgliadau dechreuol o'r data a gasglwyd.
- **Sylw i fanylion**: Sicrhau bod data a gasglwyd yn gywir ac yn gyflawn.
- **Cyfathrebu (ysgrifenedig)**: Crynhoi canfyddiadau a chyflwyno data mewn fformat clir a dealladwy.
- **Ystyriaethau moesegol**: Deall a chydymffurfio gyda chanllawiau moesegol ar gyfer casglu a dadansoddi data.

Mae bod yn llysgennad dysgwyr yn rôl amlagweddog sydd angen ystod eang o sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu, trefnu a dadansoddi. Yn ogystal â bod o fudd i'r gymuned ddysgwyr, bydd datblygu'r sgiliau hyn yn rhoi profiad gwerthfawr ar gyfer twf personol a phroffesiynol dysgwyr.

# Adnoddau gan bartneriaid

**Addysg Oedolion Cymru**
Adroddiad Fforwm Llysgenhadon Dysgwyr

**Coleg Caerdydd a'r Fro**
Llysgenhadon Dysgwyr – Cwrs 10 wythnos a gafodd ei greu ar y cyd gyda'r gymuned

**Aontas**
Padlet: Datblygu Llais Dysgwyr

# Adnoddau'r Sefydliad Dysgu a Gwaith

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Tegwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru: stori Scott Jenkinson**

**Cyfres podlediadau Newid dy Stori**

**Gweledigaeth ar gyfer Dysgu Gydol Oes: Cyfweliad: Enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion mewn sgwrs gyda Simon Pirotte, Prif Swyddog Gweithredol Medr**

**John Gates' story: Lifetime Achievement Inspire! Award winner 2023**

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sydd â'i ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial. Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

Gweithiwn gydag ystod eang o bartneriaid a chyllidwyr i gyflawni ein gweledigaeth o gymdeithas lewyrchus a theg lle mae dysgu a gwaith yn rhoi cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial ac uchelgais drwy gydol eu bywyd.
Cwmni cyfyngedig drwy warant rhif cofrestru 2603322 ac elusen gofrestredig rhif 1002775.

7 Coopers Yard
Caerdydd/Cardiff
CF10 5NB
+44(0)29 2037 0900
enquiries@learningandwork.org.uk
https://www.sefydliaddysguagwaith.cymru/

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Ariennir gan
Funded by
Taith